Edward Tegla Davies, 1880–1967
Gweinidog (EF), llenor a heddychwr

Yn yr Hen Giat, Llandegla, Dinbych, y ganwyd Tegla Davies ar 31 Mai 1880. Edward oedd ei enw bedydd ond mabwysiadodd yr enw Tegla yn ddiweddarach o barch i'w bentref genedigol. Ef oedd y chweched o wyth plentyn William a Mary Ann Davies, a magwraeth dlawd a gafodd oherwydd i'w dad gael ei anafu yn chwarel y Foel Faen a olygodd na allai ennill llawer o gyflog.

Symudodd y teulu i Gwynfryn ym 1893 ac yna i Fwlch-gwyn wrth ymyl Wrecsam ym 1896. Cynhelid dyletswydd teuluaidd yn ddyddiol ar yr aelwyd. Yn y cyfnod hwn cyfarfu Tegla ag Ehedydd Iâl (William Jones), awdur yr emyn 'Er nad yw 'nghnawd ond gwellt', a chafodd hwnnw argraff ddofn arno. Derbyniodd addysg gynnar yn ysgol Llandegla ond anfoddhaol oedd yr addysg honno gan fod yr athro'n treulio'r rhan helaethaf o'i amser yn slochian yn yr Hand. Pan oedd yn bedair ar ddeg oed dechreuodd Tegla fel disgybl-athro yn ysgol Bwlch-gwyn, a digwyddiad pwysig yn ei ddatblygiad oedd dyfodiad athro newydd i'r ysgol, sef Tom Arfor Davies. Hyd hynny bu'r addysg yn gwbl Saesneg a Seisnig ond yr oedd T.A. Davies fel chwa o awyr iach oherwydd ei bwyslais ar y Gymraeg a Chymreigrwydd. Cyflwynwodd Tegla i waith O.M. Edwards ac aeth ati i'w ddarllen gydag afiaith. Bu farw T.A. Davies yn ŵr ifanc 27 oed a chollodd Tegla un o'i arwyr cyntaf.

Wedi iddo wrando ar John Evans, Eglwys-bach yn pregethu, a dilyn awgrym Ben Davies, Ystalyfera, i ddarllen y Beibl o glawr i glawr, fe gafodd dröedigaeth yn ddwy ar bymtheg oed. Daeth yn aelod eglwysig gyda'r Wesleaid a dechreuodd bregethu ym mis Rhagfyr 1897. Bu'n bregethwr cynorthwyol am ddwy flynedd ac fe dderbyniwyd ymgeiswyr i'r weinidogaeth a deuddeg arall yn y cyfarfod taleithiol ym Mangor ym 1901. Cafodd flwyddyn o brofiad yn y weinidogaeth yn Ffynnongroyw, Fflint, cyn mynd i Goleg Didsbury, Manceinion ym 1902 ar gyfer hyfforddiant o bedair blynedd. Cafodd brofiadau newydd yn y fan

honno. Ei gylchdaith gyntaf ym 1905 oedd Abergele lle y bu am gyfnod o dan gyfarwyddyd y Parch. Evan Jones. O'r fan honno aeth i Leeds am flwyddyn cyn glanio ym Mhorthaethwy, Môn ym 1907. Arfer y Wesleaid oedd symud eu gweinidogion o gylchdaith i gylchdaith bob tair blynedd, felly yn ystod ei yrfa bu Tegla mewn llawer ardal yn gofalu am gylchoedd o eglwysi. Ym 1908 priododd â Jane Eleanor Evans, Siop y Gwynlys, Bwlch-gwyn, a ganwyd iddynt dri o blant, sef Dyddgu, Arfor a Gwen.

Ei gyfraniad mawr i'r bywyd Cristnogol Cymraeg oedd ei waith fel llenor. Bu'n olygydd ar nifer o gylchgronau fel *Yr Eurgrawn* ym 1911 (dros dro), *Y Winllan* 1920–28, *Yr Efrydydd* 1931–35 a *Chyfres y Pobun* 1944–50. Ymddangosodd rhai o'i lyfrau poblogaidd, fel *Hunangofiant Tomi* (1912), *Nedw* (1922) a *Y Doctor Bach* fel cyfresi yn *Y Winllan* i ddechrau, sef cylchgrawn Cristnogol i blant a ieuenctid. Ysgrifennodd yn ddiflino gan gyhoeddi ymhlith pethau eraill lyfrynnau Cristnogol i blant; addasiad o *Taith y Pererin*, erthyglau mewn papurau a chyfnodolion a hunangofiant, sef *Gyda'r Blynyddoedd*. Ymddangosodd ei nofel hir, *Gŵr Pen y Bryn*, yn benodau yn *Yr Eurgrawn* (Cylchgrawn y Wesleaid) ac yn llyfr ym 1923. Cyhoeddodd dros ddeugain o lyfrau i gyd.

Ystyrid Tegla Davies yn un o bregethwyr fwyaf effeithio a dylanwadol ei enwad yn ei ddydd ac yr oedd yn un o hyrwyddwyr cynnar beirniadaeth Feiblaidd yng Nghymru. Derbyniodd radd D.Litt, gan Brifysgol Cymru ym 1958 am ei gyfraniad i lenyddiaeth Gymraeg. Bu farw 9 Hydref 1967, a chladdwyd ef ym mynwent y Gelli, Tregarth, Bangor.